OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1988

## Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Cymru) 2015

*Cyfnod Hwyaf heb Awdurdodiad Llys*

**Cyfnod hwyaf mewn llety diogel heb awdurdodiad llys**

**2.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2) a (3), y cyfnod hwyaf, na chaiff awdurdod lleol gadw plentyn mewn llety diogel y tu hwnt iddo heb awdurdodiad y llys, yw cyfnod cyfanredol o 72 o oriau (pa un ai'n olynol neu beidio) mewn unrhyw gyfnod o 28 diwrnod.

(2) Os—

(a) cedwir plentyn mewn llety diogel ar unrhyw adeg rhwng 12 canol dydd ar y diwrnod cyn gŵyl gyhoeddus neu ddydd Sul a 12 canol dydd ar y diwrnod ar ôl yr ŵyl gyhoeddus neu'r dydd Sul,

(b) yn ystod yr amser hwnnw, byddai'r cyfnod hwyaf o 72 awr yn dod i ben, ac

(c) yn ystod y 27 diwrnod cyn y diwrnod y dechreuodd y cyfnod diweddaraf mewn llety diogel, roedd y plentyn eisoes wedi ei gadw mewn llety diogel am gyfnod cyfanredol o fwy na 48 o oriau,

estynnir y cyfnod hwyaf tan 12 canol dydd ar y diwrnod cyntaf nad yw'n ŵyl gyhoeddus nac yn ddydd Sul.

(3) Pan fo llys yn rhoi awdurdodiad i gadw plentyn mewn llety diogel, rhaid diystyru unrhyw gyfnod pan gedwid y plentyn mewn llety diogel cyn cyfnod yr awdurdodiad hwnnw, wrth gyfrifo'r cyfnod hwyaf mewn perthynas ag unrhyw gyfnodau dilynol mewn llety diogel ar ôl i'r cyfnod a awdurdodwyd gan y llys ddod i ben.

**Gofyniad pan fo plentyn dan gadwad heb awdurdodiad llys**

**3.**—(1) Cyn bo awdurdod lleol yn lleoli plentyn mewn llety diogel heb awdurdodiad llys, rhaid iddo yn gyntaf greu cofnod ysgrifenedig sy'n nodi—

(a) y rhesymau pam y mae'n credu bod y seiliau o dan adran 119(1) o'r Ddeddf wedi eu bodloni;

(b) diben y lleoliad; ac

(c) y rhesymau pam y mae'n credu bod y lleoliad yn angenrheidiol.

(2) Rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu copi o'r cofnod hwnnw i'r canlynol—

(a) y plentyn ac unrhyw berson sy'n darparu cynrychiolaeth gyfreithiol i'r plentyn;

(b) rhieni'r plentyn;

(c) unrhyw berson nad yw'n rhiant y plentyn ond sydd â chyfrifoldeb rhiant amdano;

(d) ymwelydd annibynnol y plentyn os penodwyd un; ac

(e) unrhyw berson arall y tybia'r awdurdod lleol y dylid ei hysbysu.